Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 2il o Fedi 2021.

1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Prenteg, Edward Evans Richard Parry – Bryncir, John Jones – Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams – Golan, Delyth Evans – Pentrefelin, Dafydd Thomas Gwenno Emlyn Huws – Penmorfa. Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Huw Pritchard, Gwilym Evans, Iddon Edwards, Manon Jones Evans, Clifford Williams, Amanda Noutch Owen.

Ar ddechrau'r cyfarfod, cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Iddon Edwards a'r teulu ar golli ei Dad.

Llongyfarchwyd ardal Golan ar fod yn ardal sydd wedi ei gynnwys yn ymgais llwyddiannus Cyngor Gwynedd i sicrhau Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

3 **Ddim yn bresennol** – neb.

4 **Datgan buddiant** – eitem 16 (Cae'r Ffynnon Garndolbenmaen) Richard Williams.

5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** – Cofnodion 01/07/21 John Jones yn cynnig ei bod yn gywir a Richard Parry yn eilio.

6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

<u>Bryncir – Glandwyfach arwyddion yn rhoi cyfarwyddiadau cliriach</u> – Asiantaeth Cefnffyrdd heb ymateb. Clerc i gysylltu eto.

<u>Garndolbenmaen Rhif 3 Mynydd Glas</u> – brigau yn tyfu drosodd i'r llwybr wedi cael eu torri.

Penmorfa – gwair ar ochor y lôn o'r Bryn i gyfeiriad Golan angen ei dorri. Gwaith heb ei wneud. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

<u>Mainc Mynwent Bethel</u> – cyflenwr yn dal i ddisgwyl iddo gyrraedd.

<u>Cae Chwarae Penmorfa</u> – coed onnen wedi eu torri.

7 **Mynwentydd**

Mynwent Bethel

Gwaith atgyweirio'r sied wedi ei gwblhau.

Dau fedd cadw gwag yn Rhes D – Clerc i gael gwybodaeth am y perchnogion.

Mynwent Cwm Pennant

Cwyn wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd fod y llwybr o'r bont heb gael ei dorri. Clerc i gysylltu gyda'r contractwr i ofyn iddo wneud y gwaith.

Hefyd cais am osod arwydd 'Mynwent' yno.

8 **Llwybrau Cyhoeddus** - dim i'w adrodd.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Prenteg

Ym mis Ionawr adroddwyd fod modurdy preifat ym maes parcio Cyngor Gwynedd mewn cyflwr gwael. Cafwyd addewid y byddai'r Adran Eiddo a Thîm Rheolaeth Adeiladau yn edrych ar ei gyflwr. Ers hyn, mae'r cyflwr wedi dirywio'n ymhellach. Clerc i gysylltu gyda'r Adran eto.

Golan (derbyniwyd trwy e-bost gan y Cynghorydd Amanda N Owen)

Gwyneb y lôn ger Carreg Frech wedi ei ddifrodi gan lori fawr. O ganlyniad, mae gwyneb y lôn wedi tyrchu ac yn creu peryg i gerbydau sy'n mynd fyny ac yn ceisio cadw at y wal. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

10 **Sedd Wag Garndolbenmaen**

Penderfynwyd hysbysebu'r sedd wag. Dafydd Thomas yn cynnig a Megan Lloyd Williams yn eilio.

11 **Carreg Bedd Mynwent Prenteg**

Derbyniwyd cais i osod carreg fedd gydag ymylfeini yn y darn sydd wedi ei neilltuo ar gyfer claddu llwch. Penderfynwyd gwrthod y cais.

12 **Cyngor Gwynedd Ardal Ni 2035**

Derbyniwyd llythyr gan Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd ynglŷn â phrosiect Ardal Ni 2035. Bwriad y prosiect yw helpu cymunedau i adnabod a gwireddu hyn sy'n bwysig i drigolion a'r materion fydd angen sylw yn y 10 - 15 mlynedd nesaf. Gwahoddwyd y Cyngor Cymuned i gyfarfod gydag un o'r swyddogion i drafod pa feysydd sydd angen sylw. Clerc i drefnu'r cyfarfod.

13 **Cyngor Cymuned Llandygai - diffyg ymateb gan Gyngor Gwynedd**

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Cymuned Llandygai parthed diffyg ymateb a chyfathrebu Cyngor Gwynedd. Gofynnwyd a oedd Cyngor Dolbenmaen yn cael trafferthion tebyg a'i barn ar y syniad o gynnal cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Cyngor Gwynedd.

Mae Unllais Cymru yn barod wedi gwahodd y Prif Weithredwr i'w cyfarfod nesaf a phenderfynwyd peidio ymateb i'r llythyr nes bydd cyfarfod Unllais wedi ei gynnal ar yr 22ain o Fedi.

14 **Parc Cenedlaethol Eryri - dathliadau pen-blwydd yn 70 oed**

Mae Parc Cenedlaethol Eryri, fel rhan o'r dathliadau pen-blwydd 70 oed, yn cynnig pecyn o goed brodorol cymysg i bob Cyngor Cymuned a Chyngor Tref yn Eryri. Penderfynwyd peidio derbyn y cynnig.

15 **Gohebiaeth**
Llythyrau Cyngor Gwynedd – Ardal Ni 2035 (gweler 12 uchod).
Ychwanegwyd – Rhaglen Waith Trafnidiaeth Medi 2021.
Gohebiaeth ychwanegol

a Parc Cenedlaethol Eryri – Arolwg ein defnydd o'r iaith Gymraeg.
b Parc Cenedlaethol Eryri – Cronfa Gymunedol Eryri.
c Unllais Cymru – Cynhadledd Arfer Arloesol. Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau llesiant ein cymunedau i'r dyfodol.

ch Unllais Cymru – Meysydd chwarae plant ac ardaloedd chwarae awyr agored canllawiau coronafeirws. Rhannwyd gyda Chynghorwyr Penmorfa 25/08/21.

d Unllais Cymru – Nodyn briffio ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref - Cyfarfodydd aml leoliad.

dd Unllais Cymru – Rhwydwaith gwyrdd ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.

e Unllais Cymru – Cylchlythyr diwygio etholiadau.

f Unllais Cymru – Cymdeithas y Cerddwyr – gwella llwybrau.

ff Cyngor Iechyd Cymuned Cymru – trafod gwasanaethau therapi iaith a lleferydd.

g Cyngor Iechyd Cymuned Cymru – gwybodaeth am leoliadau addas i gynnal cyfarfodydd.

ng Adroddiad Mike Parry Cynrychiolydd Unllais ar Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid BIPBC.

h Cyngor Cymuned Pistyll – Problemau parcio dros nos.

i Hosbis Dewi Sant – 500 o gefnogwyr.

l Mantell Gwynedd – Hyfforddiant gwerth cymdeithasol.

ll Heddlu Gogledd Cymru – Rhybudd Cymunedol. Rhannwyd 28/7/21

m Llywodraeth Cymru – ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo. Dyddiad cau 17/11/21

n Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad Rheoliadau Cynghorau Cymuned (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) Cymru 2021 28/6/21 - 24/9/21.

o Ombwdsman – Y cod ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru.

16 **Cynllunio**

Rhestrau – 25/6, 2/7, 9/7, 16/7, 19/7, 30/7, 6/8, 13/8, 20/8/21.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/417A Cais ôl weithredol i gadw adeilad stabl bren. Newid defnydd ac estyniad i'r adeilad allanol ynghyd a gosod ffenestri to a'i defnyddio fel anecs preswyl. Gosod paneli solar ar do'r stabl. Gyfyng, Cwm Pennant. Dyddiad cau 3/8/21. Gwrthwynebu ar y sail ei fod yn gais ôl weithredol.

NP2/16/458A Dymchwel estyniad presennol a chodi estyniadau unllawr cefn ac ochr. Creu teras to, gosod ffenestri to, a gosod drws i'r anecs. Gyfyng, Cwm Pennant. Dyddiad cau 3/8/21. Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/459 Codi anedd Menter Wledig, gosod tanc septig ynghyd a

thirlunio cysylltiedig. Tir ger Ty'n Llan, Cwm Pennant. Dyddiad cau 21/8/21. Tynnwyd y cais yn nôl.

C21/0730/36/AC Diwygio amod rhif 3 ar ganiatâd cynllunio C16/0872/39/LL i newid defnydd cymysg dros dro rhan o lawr gwaelod yr adeilad am gyfnod o 5 mlynedd (tan 2021) i'w ymestyn i 5 mlynedd ychwanegol (tan 2026). Dyddiad cau 26/8/21. Wern Manor, Porthmadog. Dim gwrthwynebiad.

C21/0646/36/LL Cais ar gyfer darparu 3 pwll slyri o fewn adeiladau Presennol neu sydd wedi eu caniatáu yn barod. Cae'r Ffynnon, Garndolbenmaen. Dyddiad cau 26/8/21. Dim gwrthwynebiad.

C21/0796/36/LL Codi dau adeilad amaethyddol, un adeilad dros iard fferm bresennol a'r llall yn adeilad llawr slatiau (tanc oddi tano) ar gyfer cadw gwartheg. Llwyn Mafon Isaf, Golan. Dim gwrthwynebiad.

17 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian:

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 506.66 (Awst a Medi)
Ffôn	=	£ 20.00 (Awst a Medi)
Cyfrifiadur	=	£ 30.00 (Awst a Medi)
HMRC	=	£ 126.40 (Awst a Medi)
Y Ffynnon (mis Ebrill)	=	£ 14.00
A Hughes-Jones, Dyson a'u Cwmni	=	£ 360.00
Yr Wylan (Ebrill a Gorffennaf)	=	£ 32.00
RP Tree Service	=	£3960.00

Ychwanegu

Eifion Owen	=	£ 740.00

Derbyniadau

Cyngor Gwynedd (Praesept)	£9000.00
Pritchard & Griffiths	£ 640.00
Henry Jones Cyf	£ 70.00
Ad-daliad TAW	£2716.16
Pritchard & Griffiths	£ 220.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,844.73 Cyfredol £33,890.66

18 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

Sedd wag Garndolbenmaen, Llwybr Eglwys Cwm Pennant, Ceisiadau Cynllunio.
Gwefan: Cofnodion mis Gorffennaf, Manylion taliadau i aelodau, hysbyseb sedd wag.